CYNGOR CYMUNED LLANFAIR MATHAFARN EITHAF

COFNODION o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Neuadd Goffa Goronwy Owen, Benllech ar Nos Lun, 22 Chwefror, 2016 am 7.00 o'r gloch.

PRESENNOL Mr R O Jones, (Cadeirydd), (Benllech A), Mr J Cotterell, (Benllech A), Ms G M Davies, (Benllech A), Mr K D Hughes, (Benllech A), Mrs W Owen, (Llanbedrgoch), Mrs D Roberts, (Benllech B), Mr I Williams, (Benllech B), Miss N Williams, (Benllech B).

169 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y canlynol :- Mr P Day, (Benllech B), Mr K F Griffiths, (Benllech A), Mr G Harker-Roberts, (Brynteg), Mrs J Peers, (Llanbedrgoch).

170 COFNODION.

Llofnododd y Cadeirydd Gofnodion Gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2016.

Yn codi o'r Cofnodion :

171 (2015/2016 – 158, 159) AMCANGYFRIFON AC ARCHEB 2016/2017.

Copiau diwygiedig o Amcangyfrifon ac Archeb 2016/2017.

LLWYBRAU FFYRDD A PHALMENTYDD

172 CYNGOR SIR YNYS MON - GORCHYMYN TRAFFIG ARFAETHIEDIG.

Cyflwynwyd – gohebiaeth a dderbyniwyd gan Gyngor Sir Ynys Mon yn ymwneud a gorchymyn "Dim aros unrhyw Adeg" ar y B5108 ym Menllech a Tynygongl.

PENDERFYNWYD – i gefnogi'r gorchymyn arfaethiedig.

173 MATERION PRIFFYRDD AMRYWIOL.

Adroddwyd gan aelodau – amrywiol faterion a oedd angen sylw.

GOHEBIAETH

174 LLYWODRAETH CYMRU – GWARIANT ADRAN 137.

Cyflwynwyd er gwybodaeth – llythyr gan Lywodraeth Cymru yn rhoi gwybod mai £7-42 yw'r swm priodol ar gyfer 2016/17 at ddibenion adran 137 (4) a o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

175 UN LLAIS CYMRU – AELODAETH 2016/2017.

Cyflwynwyd – llythyr gan Un Llais Cymru yn cymell aelodaeth o'r corff ar gost o £528-00 am 2016/17.

PENDERFYNWYD – cytuno i ymaelodi am 2016/17.

176 GRANTIAU A RHODDION.

Cais am grant gan y canlynol :-

(i) Mynwent Soar Rhosfawr

PENDERFYNWYD – ar sail y pwerau a roddwyd yn Adran 137 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd) ac oherwydd bod y Cyngor o'r farn fod y gwariant yn unol a gofynion yr Adran, cymeradwyo talu :-

(i) grant o £200 i Mynwent Soar Rhosfawr.

BILIAU A CHYFRIFON

177 BILIAU

PENDERFYNWYD - talu'r biliau a ganlyn :-

Edwards Accounting	Paratoi gwybodaeth	£30-00
Eira Fon Parry	Gwasanaeth Cyfieithu	£50-00
Lingo Cyf	Hurio offer cyfieithu	£36-00
G E Pritchard	Ad-daliad cyfrifA Druce	£20-00

178 CYFRIFON

Cyflwynwyd - cyfrif yn dangos manylion y taliadau a wnaethpwyd gan y Clerc (yn cynnwys taliadau o dan Gynllun Dirprwyo cyfredol y Cyngor) yn Ionawr, 2016.

PENDERFYNWYD – nodi'r cyfrif a chymeradwyo'r taliadau.

179 CYLLIDEB Y CYNGOR

Cyflwynwyd – manylion o dderbyniadau a gwariant y Cyngor i gymharu a'i gyllideb am y cyfnod o Ebrill 1, 2015 i ddiwedd mis Ionawr, 2016.

PENDERFYNWYD – nodi a chymeradwyo'r manylion.

MATERION CYFFREDINOL

180 RHESTR GRANTIAU A RHODDION 2016/2017

Unwaith yn rhagor fe drafodwyd y Rhestr Grantiau a Rhoddion gyda'r bwriad o ddiwygio rhai o'r sefydliadau sydd bellach ddim yn gwneud cais am gymorth gan y Cyngor Cymuned. Hefyd cynyddu symiau i rai sydd mewn angen a chyflwyno elusennau a chymdeithasau newydd i'r rhestr.

PENDERFYNWYD – gan nad oedd cynrychiolaeth dda o aelodau yn y cyfarfod, trafod y mater yng nghyfarfod Mawrth o'r Cyngor Cymuned.

181 CYNGOR SIR YNYS MON – YMGYNGHORIAD AR FFORDD NEWYDD O OSOD TAI CYMDEITHASOL AR YNYS MON.

CYNLLUNIO

*** CEISIADAU**

PENDERFYNWYD ar y ceisiadau cynllunio o flaen y Cyngor fel a ganlyn:-

(Datganodd Mr E Ll Owen ddiddordeb yng nghais Rhif 30C264B ac nid oedd yn bresennol yn ystod y trafodaethau a'r pleidleisio ar yr eitem)

*** PENDERFYNIADAU**

Adroddwyd er gwybodaeth - penderfyniadau cynllunio diweddar Gyngor Sir Ynys Môn.

*** APELIADAU**

Adroddwyd er gwybodaeth -

*** PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO DIRPRWYEDIG**

Cyflwynwyd er gwybodaeth – manylion yr argymhellion wnaethpwyd gan y Clerc i Gyngor Sir Ynys Môn ers y cyfarfod diwethaf o dan Gynllun Dirprwyo'r Cyngor.